**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 417**
**17 Mai, 2018, S4C Llanisien, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Guto Harri | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Llion Iwan | (Pennaeth Dosbarthu Cynnwys) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| **Ymddiheuriadau:** | Siân Lewis | (Aelod o'r Awdurdod) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 416 a gynhaliwyd ar Ebrill 19eg**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 416 a gynhaliwyd ar Ebrill 19eg. Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 416**

**Eitem 5.2.1 Penodi aelodau newydd**

Nodwyd fod trafodaethau'n parhau rhwng DCMS a Llywodraeth Cymru parthed penodi aelodau newydd i'r Bwrdd, a gobeithir y bydd Aelodau newydd yn eu lle erbyn cyfarfod Gorffennaf.

**Eitem 6.1.3 Strategaeth Amrywiaeth**

Cyfeiriwyd at y Strategaeth Amrywiaeth ddrafft a gyflwynwyd i Fwrdd yr Awdurdod ym mis Ebrill a nodwyd yr angen i gyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ar y 4 pwynt gweithredu.

**Noson Gwylwyr**

Penderfynwyd y dylid ceisio trefnu Noson Gwylwyr yn y Trallwng ym mis Mehefin, ac y byddai BCW yn cydlynu dyddiadau gyda'r Aelodau er mwyn

canfod dyddiad fydd yn gyfleus i fwyafrif yr aelodau.

**Eitem 7.3.7 – Strategaeth Cynnwys**

**[Crynodeb:** Adroddodd AR ar yr angen i addasu'r Strategaeth Cynnwys gan nodi'r oblygiadau i'r amserlen.]

4. **Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y pwyntiau gweithredu. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.

5. **Adroddiadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Ymateb i'r Adolygiad ac Ymateb DCMS**

Nodwyd fod trafodaethau ar y gweill gyda swyddogion DCMS parthed gweithredu nifer o argymhellion yr Adolygiad, gyda'r bwriad o gytuno cynllun gweithredu interim erbyn mis Gorffennaf ynghyd â fframwaith ar gyfer camau pellach os bydd DCMS yn llwyddo i gyflwyno deddfwriaeth maes o law.

**[Crynodeb:** Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau Bwrdd Unedol a'r dull archwilio i'r dyfodol.]

Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng S4C ac Ofcom er mwyn trafod sut i ffurfioli a hyrwyddo'r berthynas reoleiddio bresennol.

Nodwyd y bydd diweddariad a chynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mehefin yn dilyn trafodaethau pellach gyda DCMS, er mwyn cyflwyno cynllun ar gyfer gweithredu trefn bwrdd unedol cysgodol, dod i gytundeb ar eiriad diwygiedig ar gyfer y cylch gorchwyl cyhoeddus (digidol a thiriogaethol) a masnachol, a'r berthynas arfaethedig gyda'r NAO ac Ofcom.

Nodwyd fod y Cadeirydd ac OE wedi cyfarfod EOW er mwyn ceisio deall rhagor am nifer o'i argymhellion a sylwadau.

**[Crynodeb:** Mae cynllun hyb digidol ar waith ac fe fydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i newid trywydd.]

5.2 **Gŵyl Gyfryngau Geltaidd**

Cyfeiriwyd at lwyddiant S4C yn yr Ŵyl Gyfryngau Geltaidd, lle enillodd S4C bedair gwobr, gan gynnwys Gwobr Ysbryd yr Ŵyl am Hillsborough: Yr Hunllef Hir.

Cafwyd cyfle yn ystod yr Ŵyl i drafod gyda chynrychiolwyr darlledwyr Celtaidd eraill, gan gynnwys creu partneriaeth ar gyfer cynhyrchu a rhannu rhaglenni a chynnwys.

5.3 **Loteri Cymru**

**[Crynodeb:** Trafodwyd y datblygiadau diweddar gyda Loteri Cymru a'r goblygiadau i S4C.]

5.4 **Strategaeth Ddigidol**

Adroddodd OE fod arbenigwr, wedi bod yn cynghori ar greu cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Ddigidol.

Nodwyd y bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin yn dilyn trafodaethau pellach parthed cynllun ar gyfer gweithredu'r strategaeth.

5.5 **Gweithgareddau Masnachol**

**[Crynodeb:** Trafodwyd rhai o weithgareddau masnachol is-gwmnïau S4C.]

5.6 **Adleoli**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar faterion personél ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo i'r Egin.]

5.7 **Y Gogledd Ddwyrain**

Cyfeiriwyd at gynlluniau sydd dan ystyriaeth ar gyfer cynyddu presenoldeb S4C yn y Gogledd Ddwyrain a phortread y rhanbarth ar y gwasanaeth. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda thîm cynhyrchu Heno er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o'r rhanbarth.

**[Crynodeb:** Clywyd hefyd am drafodaethau gyda chwmni masnachol penodol.]

5.8 **Cynllun Gwaith Blynyddol**

Trafodwyd yr angen am Gynllun Gwaith blynyddol, a nodwyd y byddai cynllun gwaith clir a hawdd i'w ddeall yn ddull o gyflwyno cynlluniau'r Bwrdd Unedol ar gyfer y flwyddyn, ac y gallai hyn fod yn rhan o drefniadau atebolrwydd newydd S4C yn y dyfodol.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno drafft o Gynllun Gwaith S4C ar gyfer 2018-19 ar gyfer ystyriaeth Bwrdd yr Awdurdod.

6. **Adroddiad Blynyddol 2017/18**

Cyflwynwyd arweiniad ar gyfer naratif yr Adroddiad Blynyddol, a chafwyd trafodaeth am y naratif ac asesiad perfformiad y Bwrdd ar gyfer 2017/18.

**[Crynodeb:** Cymeradwywyd cyfeiriad cyffredinol yr Adroddiad a'r negeseuon y bwriedir cyfleu.]

7. **Datganiad Ariannol 2017/18**

Cyflwynodd HHE Ddatganiad Ariannol 2017/18 drafft a nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a oedd wedi cyfarfod yn gynharach yn ystod y dydd, gydag Aelodau'r Bwrdd yn bresennol wedi penderfynu argymell y Datganiad Ariannol ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Ariannol, gan awdurdodi'r Cadeirydd i drafod unrhyw newidiadau a chywiriadau a ddaw yn sgil sylwadau DCMS a'r Archwilwyr Allanol.

8. **Adroddiad Dadansoddi Chwarter 4, 2018-19**

Cyflwynwyd Adroddiad Dadansoddi Chwarter 4, a nodwyd fod yr adroddiad eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynnwys ar y 25ain o Ebrill, ac wedi ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd.

**[Crynodeb:** Ymhlith materion eraill cyfeiriwyd at batrymau gwylio, a'r newidiadau o ran gwylio ar deledu ac ar-lein; trafodwyd sut i arbrofi gyda syniadau newydd heb raglenni Peilot; ac ystyriwyd sut i gynyddu'r gwylio i'n dramâu cryf drwy, efallai, cynhyrchu nifer llai o raglenni, peidio amserlennu yn ystod yr un cyfnod â dramâu eraill a chwilio am bynciau ysgafnach.]

9. **Adroddiad Ariannol, Chwarter 4, 2017/18**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd ShW yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Chwarter 4 2017/18.]

10. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Nodwyd y manteision i brynu fformat rhaglen lwyddiannus o wlad arall er mwyn lleihau'r risg.]

11. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiad y Wifren Gwylwyr er gwybodaeth a nodwyd cwyn newydd a dderbyniwyd.]

12. **Rhaglen Waith 2018/19**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Bwrdd yr Awdurdod er gwybodaeth.

13. **Unrhyw Fater Arall**

**Polisi Teithio a Chynhaliaeth (o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio)**

Cyflwynodd HHE fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth a oedd wedi ei drafod yn gynharach yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Nodwyd fod darpariaethau newydd yn ymwneud gyda thaliadau ar gyfer tanwydd ceir llog a rhai lwfansau cynhaliaeth.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Teithio a Chynhaliaeth ddiwygiedig.